ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau cyfarfod dydd Gwener 27ain Chwefror 2004, am 10.30am
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Y Cyng. T D Morgans (C)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cyng. T Theophilus	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cyng. B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cyng. K T Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Y Cyng. W H C Teesdale	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Y Cyng. K Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cyng. A Lloyd-Jones	Cyngor Sir Ceredigion

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Will Watson	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	CS Penfro/Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (Ardal y De-orllewin)

1. Ymddiheuriadau

Y Cyng. P Palmer	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cyng. R R Hayes	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Y Cyng. D I E Jones	Dinas a Sir Abertawe
Y Cyng. B Owen	Dinas a Sir Abertawe
Y Cyng. R M Granville	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Y Cyng. D Vaughan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Bleddyn Jones	Cyngor Sir Ceredigion
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin

2. Cofnodion cyfarfod 28ain Tachwedd 2003

Fe'u cafwyd yn gofnod cywir.

Eitem 9: Fel a gytunwyd, dosbarthodd GW adroddiad er gwybodaeth, a baratowyd ar gyfer De-ddwyrain Cymru ar *'Asesiad Effaith ar Iechyd'* eu Cynllun Gwastraff Rhanbarthol hwy.

3. Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 11eg Rhagfyr 2003 -Nodwyd.

Eitem 3: Mynegodd y Cyng. Lloyd-Jones bryder mawr o ran y problemau bygythiol ynghylch mater gwastraff peryglus.

Dywedodd GW fod cyfarfod gyda chynrychiolwyr CGAC (WESA) wedi digwydd ac yn eu barn hwy bod cryn dipyn o ansicrwydd wrth ystyried safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff peryglus.

Cytunwyd: Bod swyddogion yn cynhyrchu dogfen, i'w chadarnhau gan y Fforwm, i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd er mwyn tanlinellu'r angen am arweinad a chyfarwyddyd clir o ran mater gwastraff peryglus. **Gweithredu**: GW.

4. <u>Nodiadau cyfarfod y Grŵp Technegol 23ain Ionawr 2004</u> - Nodwyd.

5. <u>Derbyn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol</u>

Cadarnhaodd GW fod pob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol bellach wedi cymeradwyo'r CGRh a bod yn rhaid i'r Fforwm 'dderbyn' y ddogfen yn derfynol a chyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cynulliad Cymru. **Cytunwyd**.

Nodwyd hefyd bod angen i'r rhanbarth yn ystod y 6 mis nesaf gynhyrchu atodiad i'r Cynllun sy'n ymdrin â lleoliad / hyd a lled cyfleusterau is-ranbarthol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn gweithio ar restr o feini prawf i nodi darnau o dir ar gyfer cyfleusterau tirlenwi ledled y rhanbarth.

Nodwyd bod datblygiad yr atodiad wedi bod yn araf oherwydd y diffyg datblygiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r angen i Swyddogion Bwrdeistrefol gwrdd i drafod y ffordd ymlaen.

Mynegwyd cryn bryder gan yr aelodau oherwydd y diffyg datblygiad ar yr atodiad. Cafwyd trafodaeth a nodwyd y prif bwyntiau canlynol.

- Am fod pawb yn teimlo nad yw'r CGRh yn mynd yn ddigon pell, mae angen ymdrech arbennig i gynhyrchu'r atodiad – mae'n rhaid ystyried hynny'n flaenoriaeth;
- Bydd trin cyfleusterau gwastraff yn rhanbarthol yn cynnig manteision sylweddol.
- Mae angen i Asiantaeth yr Amgylchedd ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: GW i ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cymru Asianaeth yr Amgylchedd i godi'r angen am ddatblygiad gan wneud hynny '*mewn geiriau plaen iawn'*. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei drosglwyddo i'r Aelodau;
- Bydd y mater yn cael ei godi yn Fforwm Cenedlaethol nesaf Asiantaeth yr Amgylchedd – dydd Llun 15fed Mawrth; a
- Bydd swyddogion yn paratoi atodiad drafft erbyn diwedd Ebrill, i'r Aelodau ei ystyried. **Gweithredu**: Pawb.

6. <u>Y 3 Blynedd Nesaf: y ffordd ymlaen i'r Rhanbarth</u>

Dywedodd GW fod Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi dosbarthu contract drafft ar gyfer grantiau'r Grŵp Gwastraff Rheoliadol ar gyfer 2004-2007. Lefel yr ariannu i bob rhanbarth fydd £50k (2004-05), £50k (2005-6) a £90k (2006-07).

Trafodwyd mater y ffordd ymlaen i'r rhanbarth yn y Grŵp Swyddogion Technegol. Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn barod i barhau i hwyluso ac arwain y broses, ond roedd yn bwysig bod y Fforwm yn cadarnhau hyn. **Cytunwyd**.

7. <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf ar ddiwedd Ebrill. **Gweithredu**: GW i gytuno ar ddyddiad gyda'r Cyng. Palmer a hysbysu'r Aelodau.

8. <u>Unrhyw fater arall</u>

Ni chafwyd yr un.